

**Cyfeirnod:** IR748

**Dyddiad cyhoeddi:** 7 Awst 2020

## Cyfathrebu a Gwasanaethau

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth, dyddiedig 20 Gorffennaf pan wnaethoch ofyn am wybodaeth am gyfathrebu & gwasanaethau. Rydym yn cadw rhywfaint o wybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ac rwyf wedi nodi hyn isod.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol.

A fydddech cystal â chadarnhau gwneuthurwr eich system(au) teleffoni sydd ar waith ar hyn o bryd?

### **Microsoft (Skype)**

Pryd oedd dyddiad gosod eich offer teleffoni? **17 Gorffennaf 2018**

Pwy sy'n cynnal a chadw eich system(au) teleffoni? **Ar hyn o bryd, darperir yr holl deffoni o dan un contract gyda Interoute (a elwir bellach yn GTT)**

Cadarnhewch werth y prosiect cychwynnol a gwerth y gwasanaethau cymorth/cynnal a chadw blynyddol (mewn £)?

**Mae'r contract ar gyfer datrysiad Skype a gynhelir. Mae hefyd yn cynnwys prif gysylltiad SIP i switsh ffôn etifeddol ar y safle, er mwyn hwyluso symud ein defnyddwyr oddi ar y switsh etifeddol ac i'r datrysiad Skype a gynhelir. Mae'r contract yn cynnwys rhifau "deialu uniongyrchol" neu "linellau" ar gyfer 335 o ddefnyddwyr. Elfen sefydlog y tâl misol yw £3,865.50 ynghyd ag amcangyfrif o £248 y mis ar gyfer taliadau galwadau. Roedd caffael drwy Fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron G Cloud 9.**

A yw eich gwasanaeth cynnal a chadw blynyddol yn cynnwys symudiadau, ychwanegiadau a newidiadau? Ac os na, beth yw cost flynyddol symudiadau, ychwanegiadau & newidiadau? **Ydy**

Pryd mae dyddiad adnewyddu eich contract? **Gorffennaf 2021**

Ydych chi'n defnyddio offer Cyfathrebu neu Gydweithredu Unedig fel Microsoft Skype ar gyfer Busnes/ Teams/Cisco/Avaya/Mitel? Os ydych, pa offer ydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd? **Ydyn – Skype a Teams**

A fydddech cystal â chadarnhau gwneuthurwr eich system(au) Canolfan Gyswllt sydd ar waith ar hyn o bryd? **Amh**

Pryd oedd dyddiad gosod seilwaith eich canolfan gyswllt? **Amh**

Pwy sy'n cynnal a chadw system(au) eich canolfan gyswllt? **Amh**

Cadarnhewch werth y prosiect cychwynnol a gwerth y gwasanaethau cymorth/cynnal a chadw blynyddol (mewn £)? **Amh**

Faint o weithwyr/asiantau canolfannau cyswllt sydd gennych? **Amh**

A yw asiantau'n gweithio gartref? Neu yn eich swyddfeydd yn unig? **Amh**

Pryd mae dyddiad adnewyddu eich contract? **Amh**

Ydych chi'n defnyddio CRM yn y ganolfan gyswllt? Pa lwyfan sy'n cael ei ddefnyddio? **Amh**

Ydych chi'n defnyddio sylfaen wybodaeth / llwyfan rheoli gwybodaeth? Pa lwyfan sy'n cael ei ddefnyddio? **SharePoint Ar-lein**

Pwy sy'n darparu eich galwadau a'ch llinellau ar hyn o bryd? **GTT, wedi'i gynnwys yng nghontract Skype y cyfeirir ato uchod**

Beth yw eich gwariant blynyddol cyfredol ar alwadau a llinellau? **Gweler uchod**

Pryd mae dyddiad adnewyddu eich contract? **Gweler uchod**

Pwy sy'n darparu eich rhwydwaith ardal eang? Faint o safleoedd sydd wedi'u cysylltu? **PSBA (contract fframwaith sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru), 6 safle**

Beth yw cyfanswm y gweithwyr sydd gennych o fewn eich sefydliad? **280**

Allwch chi ddarparu manylion cyswllt ar gyfer eich arweinydd caffael / rheolwr categori ar gyfer y gwasanaethau hyn?

**Manylion cyswllt: [ITSupport@archwilio.cymru](mailto:ITSupport@archwilio.cymru) neu ffoniwch ar 02920 320690.**

Allwch chi ddarparu enwau a manylion cyswllt ar gyfer y bobl ganlynol o fewn eich sefydliad?

PSG / Cyfarwyddwr TG **Amh**

Pennaeth TG

**Rwy'n atal enw Pennaeth TG Swyddfa Archwilio Cymru o dan a40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth gan mai dyma ddata personol deiliad y rôl a byddai datgelu'n torri egwyddorion diogelu data Deddf Diogelu Data 2018. Mae hwn yn eithriad llwyr. Wrth atal y wybodaeth hon rwyf wedi ystyried canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddatgelu data personol <https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/2614720/personal-information-section-40-and-regulation-13-version-21.pdf> a'i ganllawiau ar geisiadau am wybodaeth am weithwyr awdurdodau cyhoeddus**

[https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1187/section\\_40\\_requests\\_for\\_personal\\_data\\_about\\_employees.pdf](https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1187/section_40_requests_for_personal_data_about_employees.pdf). *Rôl rheoli canol yw rôl Pennaeth TG, nid yw'n wynebu'r cyhoedd ac nid yw deiliad y rôl yn gyfrifol yn benodol am wario arian cyhoeddus – gwneir hyn ar lefel uwch yn y sefydliad.*

Pennaeth Trawsnewid Digidol **Amh**

Pennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid **Amh**

Os hoffech gwyno am ymdriniaeth eich cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Pennaeth y Gyfraith a Moeseg, drwy e-bost ar [martin.peters@archwilio.cymru](mailto:martin.peters@archwilio.cymru) neu drwy'r post i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, lle y gallwch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynglŷn ag ymdriniaeth eich cais yn unol â'r Ddeddf. Dyma fanylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire SK9 5AF

E-bost: [casework@ico.gsi.gov.uk](mailto:casework@ico.gsi.gov.uk)

Ffôn: 01625 545745

Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi fod wedi disbyddu ein gweithdrefnau cwyno mewnol cyn delio â chais o'r fath. Ceir canllawiau pellach ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir

Swyddog Gwybodaeth